



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bodhyfryd
Ffordd Brynycabanau
Wrecsam**

LL13 7DA

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Bodhyfryd

Mae Ysgol Bodhyfryd yn nhref Wrecsam yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 410 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 39 oed meithrin rhan-amser.

Tros dreigl tair blynedd, mae tua 17% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Tua 14% o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndiroedd ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 22% o'i disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Lleolir dwy uned anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol yn ogystal.

Mae'r pennaeth dros dro yn ei swydd er Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae cymuned Ysgol Bodhyfryd yn un deuluol a chynhwysol sy'n darparu gofal a chymorth effeithiol i'r disgyblion. Yn ystod eu cyfnod yno, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob un disgybl yn dangos brwdfrydedd at eu gwaith ac awch i ddysgu ac maent yn ymddwyn yn gwrtais i'w gilydd ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol ac yn cael cynhaliath effeithiol gan y staff.

Mae'r berthynas waith effeithiol sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at greu amgylchedd ddysgu fyrlymus lle mae'r disgyblion a'u rhieni yn cyfrannu'n effeithiol at yr hyn sy'n cael ei ddysgu. O ganlyniad, darperir gweithgareddau ysgogol a chreadigol ar gyfer y disgyblion sy'n eu datblygu'n ddysgwyr chwilfrydig a hyderus.

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau diddorol i'r disgyblion, sy'n hyrwyddo'r celfyddydau Cymreig yn dda ac yn meithrin ynddynt falchder am ddefnyddio'r Gymraeg. Mae medrau creadigol y disgyblion yn datblygu'n effeithiol, gyda'r gwaith yn cael ei arddangos yn ddeniadol o amgylch yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro, aelodau'r uwch dîm rheoli, y llywodraethwyr a'r staff yn ymroddedig ac yn cydweithio'n dda i weithredu'n effeithiol ar ddatblygu'r blaenoriaethau gwella a sicrhau gwelliant parhaus.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig her briodol i'r disgyblion.
- A2 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion y cyfnod sylfaen.
- A3 Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wella safon eu gwaith.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf o'r disgyblion yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill. Mae medrau llafar disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth drafod defnyddiau addas i gadw offer yn oer. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn amrywio'u tŷn a goslef eu llais yn fedrus yn eu gweithgareddau her, er enghraifft wrth ddarllen sgript am Alun yr Arth yn teithio i'r gofod. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cyfrannu'n glir a phwrpasol mewn trafodaethau dosbarth yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio geirfa ymestynnol yn effeithiol er mwyn creu effaith mewn ystod dda o weithgareddau. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys sut mae disgyblion hŷn yr ysgol yn trafod eu teimladau ac yn dangos empathi at y digartref.

Mae medrau darllen rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ffonig yn briodol i adnabod geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda lefel addas o gywirdeb ac yn cyfleu ystyr yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys testun yn ystyrion gan gyfeirio'n synhwyrol at nodweddion penodol, er enghraifft wrth drafod nofelau cyfoes Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am Lyfrgell Genedlaethol Cymru fel rhan o'r thema.

Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu brawddegau byrion yn briodol ar boster sy'n seiliedig ar ofalu am y byd ac yn defnyddio prif lythyren ac atalnod llawn yn gyson. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ysgrifennu gwahoddiad i briodas. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon estynedig ar draws agweddau eraill y cwricwlwm. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn gadarn ac yn addasu eu gwaith yn briodol, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o'r cymeriad Sam Lewis. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa ymestynnol wrth ysgrifennu ymson yn Saesneg, fel, 'I can dream of removing my mask of shame and live a wonderful life' wrth ymateb i'w hastudiaeth o nofel benodol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau dwyieithrwydd yn effeithiol ac maent yn hyderus i gymhwyso eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent wedi ymchwilio i nifer o ffynonellau yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn creu hysbyseb llafar ac ysgrifenedig i ddenu ymwelwyr i ymweld â Wrecsam.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrifo'n hyderus, yn adnabod siapiau ac yn trin data yn effeithiol. Mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau

rhifedd yn hyblyg mewn amrywiaeth dda o weithgareddau ystyrion, er enghraifft wrth chwilio am siapiau dau ddimensiwn fel rhan o'u gweithgareddau amrywiol yn y goedwig. Maent yn hyderus i fesur graddfeydd, er enghraifft wrth fesur tymheredd dŵr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o arwynebedd a pherimedr yn gadarn ac yn eu cymhwyso'n effeithiol i sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth fesur rhannau o'r ysgol er mwyn archebu carped. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau trin arian wrth ddatrys gwahanol heriau, er enghraifft wrth gyfrifo cost i oedolion a phlant gael mynediad i'r Cae Ras. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau rhif a mesur yn gadarn er mwyn cyfrifo cost ac elw wrth ddatblygu mentrau penodol, er enghraifft wrth greu a gwerthu dodrefn wedi ei adnewyddu a chacennau cri. Maent yn llwyddo i ddefnyddio taenlenni yn hyderus fel rhan o'r broses gyfrifo ac i ddatblygu eu medrau rhifedd yn gadarn mewn sefyllfaoedd ymarferol ar draws y pynciau a meysydd dysgu.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn creu lluniau electronig ac yn cyflwyno data ar ffurf graffiau a siartiau yn bwrpasol. Maent yn defnyddio llechi electronig yn hyderus i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac i gadw cofnod o'u gwaith yn ddiogel. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhyngwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am oes Fictoria. Maent yn paratoi cyflwyniadau amlgyfrwng diddorol ac yn cynhyrchu taenlenni a chronfeydd data yn llwyddiannus mewn agweddau o'r cwricwlwm, er enghraifft i gofnodi gweithgareddau corfforol eu cyfoedion.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn dangos diddordeb a mwyhad yn eu gwaith, ac yn canolbwyntio a dangos lefel uchel o ddyfalbarhad er mwyn cwblhau tasgau. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Enghreifftiau nodedig o hyn yw sut mae rhai disgyblion y cyfnod sylfaen yn ymroi'n llwyr i heriau a thasgau amrywiol yn y corneli her. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn barod i fentro, gan dderbyn bod gwneud camgymeriadau yn rhan naturiol o ddysgu.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch ac aeddfedrwydd. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r awyrgylch gartrefol sy'n bodoli a'r ffordd garedig ac addfwyn mae llawer o'r disgyblion hyn yn gofalu am eu cyfoedion iau, gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Maent yn sgwrsio ac yn gwrandao'n hyderus ar eu partneriaid parhau yn effeithiol wrth drafod syniadau cychwynnol a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y wers. Maent yn gweithio'n annibynnol ar dasgau ac yn barod iawn i gydweithio â phartneriaid am gyfnodau estynedig er mwyn cydweithio ar amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cydweithio'n ystyrion wrth adeiladu roced.

Mae bron pob disgybl yn deall manteision gweithredu ffyrdd iach o fyw a gwneud dewisiadau doeth. Maent yn deall pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac effaith gadarnhaol ymarfer corff cyson ar eu hiechyd. Maent wedi gwneud arbrofion gwyddonol ar effaith ymarfer y corff ar guriad calon a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amser egwyl i atgyfnerthu eu dealltwriaeth o hyn. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol trwy fynychu ystod dda o glybiau ar ôl ysgol a chymryd rhan mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn deall pwysigrwydd bod yn deg â'u cyfoedion. Maent yn gwybod at bwy i droi er mwyn derbyn cyngor neu gynhaliath ar unrhyw adeg. Mae gwybodaeth disgyblion am sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein yn gadarn ac yn cael ei chyfoethogi ymhellach wrth drafod hyn gyda'r arweinwyr digidol yn rheolaidd.

Mae bron pob disgybl yn datblygu'n dda fel dinasyddion cydwybodol trwy godi arian at elusennau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos balchder yn eu llwyddiannau ac yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau, fel 'helpwyr y dydd', er enghraifft yn nosbarthiadau'r cyfnod sylfaen a bod yn aelodau cydwybodol ar gynghorau amrywiol yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymgymryd â'r rolau hyn yn awchus a chydwybodol. Dengys gwaith y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r cyngor presenoldeb fod llais y plentyn yn cael lle gwerthfawr yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i awgrymu beth yr hoffent ei ddysgu o fewn bob thema ac yn cynnig eu trywyddau dysgu eu hunain, lle bo'n briodol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos brwdfrydedd ac awch cynhenid at eu dysgu eu hunain.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd mae'r athrawon yn meithrin a chynnal perthynas waith gynhyrchol â'r disgyblion, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu safonau a'u lles. Mae'r cydlynnydd cynhwysiant, er enghraifft, yn weithgar ac yn trefnu bod yr ychydig ddisgyblion sydd angen cynhaliath lles benodol yn ei derbyn yn amserol ac mewn modd effeithiol. Mae'r athrawon yn creu awyrgylch ddysgu ysgogol a chynhaliol yn y gwersi ac mae'r cymorthyddion yn darparu cymorth effeithiol i gefnogi'r disgyblion i wella eu medrau, yn arbennig ym maes llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae awyrgylch gyffrous, fyrlymus a gweithgar yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r adeilad a thu hwnt, gan ymddiried yn y disgyblion i gyflawni llawer o dasgau'n annibynnol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol iddynt sy'n ysgogi'r gwaith thema amrywiol. Er enghraifft, mae prosiectau sydd wedi deillio o fod yn rhan o brosiectau Ysgol Greadigol ac Ysgol y Goedwig yn sbardun cyffrous i'r addysgu a'r dysgu. Trefnir ymweliadau pwrpasol i fannau diddorol, fel Plasdy Erddig a chanolfannau preswyl, yn cyfrannu'n sylweddol at fedrau dysgu a datblygiad cymdeithasol y disgyblion.

Mae'r athrawon yn modelu iaith yn effeithiol. Mae hyn yn cryfhau medrau llafar y disgyblion yn llwyddiannus iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad ieithyddol, yn enwedig y rhai ddaw o gefndir di-Gymraeg. Gan amlaf, mae'r athrawon yn cyflwyno'u gwersi yn fedrus gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r gweithgareddau dysgu bob amser yn cynnig her briodol i'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio'u medrau meddwl yn gyson yn y gwersi. Maent yn rhoi adborth llafar yn amserol iddynt er mwyn eu cynorthwyo i addasu a gwella eu gwaith yn synhwyrol. Fodd bynnag, mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig i ddisgyblion yn amrywio. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r athrawon yn cynnig sylwadau clir i ddisgyblion am sut i wella eu gwaith. Yn yr ychydig enghreifftiau llai effeithiol, nid yw'r sylwadau'n cynnig camau digon adeiladol i'r disgyblion wella'u gwaith. Mewn ychydig o'r dosbarthiadau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion ailddrafftio eu gwaith lle bo'n berthnasol; serch hynny, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r arfer ddiweddar o staff yn cyd-gynllunio yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar adeiladu medrau'r disgyblion yn drefnus wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion wella eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith. Yn yr un modd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn berthnasol ac yn cynnig amrywiaeth addas o weithgareddau ymarferol iddynt gymhwyso'u medrau yn briodol mewn sefyllfaoedd diddorol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn gyfoethog ac yn rhan greiddiol o'r addysgu a'r dysgu. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion bennu pa ddulliau cyfathrebu electronig sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd archwilio. Nodwedd lwyddiannus, sy'n cyfoethogi'r cynllunio ymhellach ar draws yr ysgol, yw'r rhan weithredol sydd gan rieni, gyda'u plant, i gynnig awgrymiadau a syniadau ar ddechrau pob thema am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Mae hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion tuag at ddysgu yn greffus ac yn cryfhau eu hymrwymiad at eu gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn gryfder ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol y disgyblion. Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael lle amlwg yng ngweithgareddau'r ysgol ac mae defnydd buddiol o ymwelwyr yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol y disgyblion yn llwyddiannus.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, groesawgar a chynhwysol. Mae'n lle hapus sy'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol i'w disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol, gyda chymorth swyddogion y consortiwm rhanbarthol, wedi datblygu gweithdrefnau olrhain cynnydd effeithiol sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar grynhoi a dadansoddi data cyrhaeddiad y dysgwyr. Mae'r taenlenni hyn yn rhoi trosolwg manwl o daith y disgyblion a grwpiau penodol o'u manau cychwyn ac yn arf pwerus i fesur eu cynnydd ac i gynllunio'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r staff yn adnabod anghenion penodol y disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt i drefnu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth a sesiynau cefnogi lles yn effeithiol ar gyfer y rheini sydd ei angen. Mae hyn yn galluogi disgyblion unigol a grwpiau penodol i wneud cynnydd priodol a magu hyder. Mae'r ysgol yn derbyn cyngor a chymorth gan asiantaethau allanol arbenigol yn ôl yr angen i'w cynorthwyo gyda datblygiad addysgol ac emosiynol y disgyblion. Er enghraifft, mae cwnselydd yn ymweld â'r ysgol yn gyson i gynnig cymorth i ddisgyblion bregus. Mae hyn yn un o gryfderau'r ddarpariaeth sy'n arwain at fagu agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth arbenigol sy'n bodoli o fewn yr ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu. Mae'r staff yn darparu cynhaliadaeth effeithiol iddynt, sy'n eu sbarduno i ymdrechu wrth eu gweithgareddau yn fedrus. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion hyn gydweithio â'u cyfoedion mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at agweddau dysgu a lles yr holl ddisgyblion. Mae staff yn creu cynlluniau addysg unigol penodol sy'n canolbwyntio'n dda ar ddatblygiad yr unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn sicrhau eu bod yn derbyn y lefel berthnasol o gefnogaeth. Mae'r gefnogaeth amlwg y mae'r ysgol wedi rhoi i'r rhieni wedi arwain at gryfhau'r cydweithio llwyddiannus sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn dangos diddordeb yn eu gwaith, a pharodrwydd i ddysgu, gan ymfalchïo yn eu cyrhaeddiad.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau'r cwricwlwm a digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r celfyddydau creadigol a diwylliant Cymru, er enghraifft. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau diddorol i ddisgyblion gydweithio â beirdd, performwyr ac artistiaid adnabyddus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau o fewn yr ysgol a'r gymuned leol i godi eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill a'u cyfrifoldeb i hwyluso bywyd yn eu milltir sgwâr. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cynnal ymweliadau buddiol â chartref henoed lleol.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a goddefgarwch hiliol yn cael eu datblygu'n effeithiol gan yr ysgol. Mae staff yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfleoedd cyfartal a thegwch ymhob gweithgaredd. Caiff y disgyblion gyfleoedd defnyddiol i fyfyrïo ar faterion amrywiol. Mae hyn yn atgyfnerthu eu datblygiad ysbrydol yn effeithiol. Mae hyn yn elfen gref o ddiwylliant yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn, ac mae hyn yn cael dylanwad buddiol ar ymddygiad disgyblion. Yn yr un modd, rhoddir blaenoriaeth ar sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o hawliau plant. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog disgyblion i dyfu'n ddinasyddion gweithgar, brwdfrydig a hyderus, sy'n barod i gyfrannu o fewn eu cymuned.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ymdrech cyfeillion yr ysgol sy'n weithgar iawn ac yn codi symiau sylweddol i brynu adnoddau a gwella'r ddarpariaeth. Maent wedi ariannu, er enghraifft, siediau newydd ac adnoddau eang sy'n cyfoethogi'r profiadau i ddisgyblion ar fuarth yr ysgol yn ystod amser egwyl. Mae'r cydweithio hwn yn cryfhau'r berthynas gadarnhaol sydd gan yr ysgol â'r rhieni ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso priodol sy'n galluogi arweinwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus wrth osod cyfeiriad strategol pendant i'r ysgol ac i gryfhau'r ddarpariaeth a gwella safonau. Er enghraifft, maent wedi cytuno ar nifer hylaw o flaenoriaethau synhwyrol oddi fewn i gynllun datblygu

ysgol sy'n drefnus ac yn rhoi cyfeiriad clir i waith tîm o staff ymroddgar. Gyda chymorth y llywodraethwyr, mae'r arweinwyr yn gwerthuso'n ofalus ac yn amserol y cynnydd a wna'r ysgol tuag at wireddu'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae ethos amlwg o sicrhau gwelliannau parhaus yn bodoli yn yr ysgol ac mae hanes cadarn o fod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'u blaenoriaethau yn llwyddiannus. Enghreifftiau nodedig diweddar o hyn yw'r gwaith cadarn sydd wedi digwydd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh a medrau llafar disgyblion.

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth dros dro ac aelodau'r uwch dîm rheoli wedi creu ethos cynhwysol, a chlòs, sy'n arwain at hinsawdd o gydweithio llwyddiannus ymysg staff a holl gymuned yr ysgol. Maent yn cynnig cyfeiriad clir ac yn sicrhau ymrwymiad y staff i gynnal a chodi safonau. Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad o bwrpas, diben ac ymroddiad ymhlith yr holl staff i'r gwerthoedd a'r uchelgeisiau hyn. Mae'r pennaeth dros dro wedi dosrannu cyfrifoldebau yn effeithiol ac mae'n chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu staff, gan hybu'r meddylfryd o rannu arfer dda y tu mewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae wedi sefydlu strwythur rheoli ac arwain cadarn sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i aelodau staff arwain a chydweithio ar fentrau sy'n seiliedig ar agweddau penodol o'r cwricwlwm, er enghraifft o fewn meysydd llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu arweinwyr y dyfodol yn llwyddiannus. Mae pob aelod staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'u blaenoriaethau. Maent yn cydweithio'n agos ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Mae hyn yn cryfhau'r ymdeimlad o welliant yn dda.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad yr ysgol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i ymweld â gwersi, cymryd rhan mewn teithiau dysgu ac i graffu ar waith disgyblion. Maent yn trafod gyda staff ac yn derbyn gwybodaeth drylwyr gan y pennaeth dros dro mewn cyfarfodydd llawn ac is-bwyllgorau. O ganlyniad i'r wybodaeth drylwyr sydd ganddynt, mae eu rôl fel 'cyfeillion beirniadol' i'r ysgol wedi datblygu'n gadarn. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn ystyried yn ofalus y penderfyniadau anodd y maent yn debygol o'u hwynebu i'r dyfodol, fel ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth cerdd, a'u gallu i flaengynllunio er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol a allai godi.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod yr adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n llawn i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd priodol yn eu safonau, yn arbennig wrth wella eu medrau llythrennedd.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2019